**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**13 Hydref 2023**

09:00 – 14:00

Lleoliad: Llys Cadwyn, Pontypridd, ac ar-lein

---

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly ac Alexia Course a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**2. Sylw i ddiogelwch.**
Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am Evotix, y system cronfa ddata diogelwch sydd wedi cael ei chyflwyno ar draws TrC ers diwedd mis Gorffennaf. Mae'r system yn adrodd ar ddamweiniau, digwyddiadau, arolygiadau ac archwiliadau ac mae'n rhoi cyfle i gael dadansoddiad a gwybodaeth fanwl.

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Nododd y Bwrdd gynnydd yn erbyn ymrwymiad i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y giatiau ar draws y rhwydwaith drwy gyfnod prawf o dri mis. Nododd y Bwrdd y cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth ar gyfer y giatiau a'r budd net sy'n arwain at warchodaeth refeniw fwy cynhwysfawr. Croesawodd y Bwrdd ganlyniadau'r treial hyd yma a chytunodd ar yr angen am gynllun cyfathrebu mwy penodol sy'n cysylltu â thocynnau cosb [Action Marie Daly].

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 15 Medi 2023, a nodwyd y Cofnod Camau Gweithredu diweddaraf. Gofynnodd y Bwrdd am drafodaeth gyda'r Adran Drafnidiaeth ynghylch peidio â chael unrhyw iawndal am weithredu diwydiannol yn Lloegr sy'n effeithio ar y rhwydwaith **[Action Alexia Course]**.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau (Cyfnod y Rheilffordd 06 (23/24) a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- [redacted]
- Yn gyffredinol, mae'r perfformiad yn parhau ar lwybr sy'n gwella ond mae bodlonrwydd cwsmeriaid wedi dirywio. Croesawodd y Bwrdd y ffaith bod perfformiad Llinellau Craidd y Cymoedd yn 'wyrdd' am sawl mis.
- [redacted]
- Mae materion sy'n ymwneud â chriwiau trenau dan reolaeth ond mae problemau gyda cherbydau'n dal i fodoli. [redacted] Fodd bynnag, dylai'r problemau leddfu gyda'r gwaith o glirio'r ffordd i Gaerfyrddin sydd ar fin digwydd.
- [redacted]

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Nododd y Bwrdd fod pedwar marwolaeth ar y rhwydwaith yn ystod Cyfnod y Rheilffyrdd 06 (23/24). Nid oes unrhyw dueddiadau o ran lleoliad y digwyddiadau wedi cael eu nodi ac mae pob un yn wahanol o ran amgylchiadau a demograffeg. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Network Rail (NR), Amey Infrastructure Wales (AIW), Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) a'r Samariaid i ganfod unrhyw gyfleoedd i liniaru. Nododd y Bwrdd y bydd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Bwrdd TrC yn cynnal archwiliad manwl mewn perthynas ag atal hunanladdiad yn ei gyfarfod nesaf.

**5.3 Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd. Nodwyd bod angen adolygu nifer o risgiau. Cytunwyd i edrych yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.

**7. Diweddariad marchnata**

Ymunodd Stephanie Raymond a Lewis Brencher â'r cyfarfod.

Nododd y Bwrdd y diweddariad marchnata a bod ffigurau o flwyddyn i flwyddyn yn dangos bod twf refeniw o £2.13m wedi cael ei briodoli i farchnata, ac am y cyfnod cyntaf eleni, bod y duedd hon o ran twf yn is na'r rhagolygon o -£0.03m. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrch a oedd yn ceisio cymell cwsmeriaid i ddefnyddio

gwasanaethau TAM; mesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau Dosbarth Cyntaf. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r dull strategol o farchnata fod yn llai goddefol.

Cytunodd y Bwrdd i archwilio'r manteision o ddefnyddio technegau marchnata arloesol ac i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio Refeniw **[Action Marie Daly/Lewis Brencher].**

Nododd y Bwrdd y cynnig Dosbarth Cyntaf a chytunodd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad MKIV sy'n mynd rhagddo. **[Action Julian Edwards].** Cytunodd y Bwrdd i ddechrau rheoli refeniw gwasanaethau MKIV o ddydd Mercher 18 Hydref ymlaen.

**8. Diweddariad masnachol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad masnachol ar gyfer y cyfnod blaenorol a thrafododd yr angen am gyflymder, sicrwydd ac arloesi er mwyn sicrhau gwell perfformiad. Roedd y Bwrdd yn annog risg wedi'i reoli'n dda ac adolygiadau byw o fentrau. Cytunwyd y dylid cyflwyno data yn unol â'r llwybr a ddilynir **[Action Alexia Course]**. Cymeradwyodd y Bwrdd y defnydd o brisio â llaw.

[redacted]

Cafwyd trafodaeth am opsiynau ar gyfer lleihau'r niferoedd sy'n teithio heb docyn drwy gyflwyno dull mwy penderfynol y gellir ei roi ar waith yn gyflym. Cytunwyd i drafod y mater yn fanwl yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio Refeniw.

Gadawodd Lewis Brencher y cyfarfod.

**9. Adolygiad ariannol**

[redacted]

Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.

**10. Hyfforddiant Trenau Class 756**

Ymunodd Dan Tipper a Rob Hale â'r cyfarfod.
Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant gyrwyr tenau Class 756. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau darpariaeth ar gyfer Eisteddfod 2024 a chytunodd y dylid datblygu cynllun penodol **[Action Jan Chaudhry Van-der-Velde]**.

Gadawodd Dan Tipper a Rob Hale y cyfarfod.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.